
# Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Dysgu o'r Gorffennol i Wneud y Dyfodol yn Fwy Diogel

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## BRIFF 7 MUNUD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch e-bost at: ADUSCymru@llyw.cymru




**CEFNDIR**

Creu un broses adolygu lle mae angen dull amlasiantaeth, gan ymgorffori'r prosesau adolygu canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Dynladdiad Domestig; Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol. Yna defnyddir yr adroddiad terfynol i lywio arferion proffesiynol drwy Ystorfa Diogelu Cymru.

**CYNNYDD HYD YN HYN**

- Mae Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael grant gan Lywodraeth Cymru ac mae bellach yn gweithio i ddatblygu a chyflwyno Rhaglen Dysgu a Datblygu Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, gyda hyfforddiant wedi'i gynllunio i gychwyn ar gyfer cadeiryddion ac adolygwyr ledled Cymru yn hwyr yn y flwyddyn yn barod ar gyfer gweithredu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.
- Mae'r cwmni cyfreithiol Geldards LLP wedi'i gomisiynu i nodi sail gyfreithlon newydd i alluogi rhannu gwybodaeth yn well rhwng sefydliadau at ddibenion cynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Nod hyn yw mynd i'r afael â'r rhwystrau presennol a nodwyd, yn enwedig mewn perthynas â cheisiadau am wybodaeth cleifion gan bartneriaid iechyd.

**CAMAU NESAF**

- Dilynwch y dolenni isod i gofrestru ar gyfer y digwyddiadau wyneb yn wyneb sy'n weddill:
- 19 Ebrill 2023 rhwng 3pm a 3.30pm yn Rhyl, lleoliad i'w gadarnhau (Grŵp Ffocws Ymgynghori ar Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, Gogledd Cymru | Eventbrite)
- 26 Ebrill 2023 rhwng 10am ac 11.30am ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys, Caerfyrddin (Grŵp Ffocws Ymgynghori ar Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, Caerfyrddin | Eventbrite)
- 25 Mai 2023 rhwng 2pm a 3.30pm ym Microsoft Teams (Grŵp Ffocws Ymgynghori ar Adolygiad Diogelu Unedig Sengl | Eventbrite)

**DIWEDDARIAD AR HWB CYDLYNU ADOLYGIAD DIOGELU UNEDIG SENGL**

- Cynhaliwyd cyfarfod i drafod y Rhestr Cadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy arfaethedig. Cynghorodd y mynychwyr tîm yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ar sut y dylai'r rhestr weithio er mwyn diwallu anghenion y rhai sy'n ei defnyddio.
- Cysylltwch os oes gennych unrhyw syniadau am hyn.

**GRŴP CYFEIRIO RHANDDEILIAID**

- Os hoffech chi fod yn rhan o'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid o hyd, i gyfrannu at y gwaith o weithredu proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, yna cysylltwch â ni. Gwahoddwch unrhyw rai o'ch cydweithwyr a allai gynorthwyo gyda gwaith y grŵp hwn. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 25 Mai rhwng 11am a 12pm.

**DIWEDDARIAD AR YSTORFA DIOGELU CYMRU**

- Cynhaliodd y tîm Ystorfa Diogelu Cymru brawf ar yr ystorfa gyda rhanddeiliaid o amrywiaeth o sefydliadau ar swyddogaethau allweddol (mewngofnodi, chwilio ac ati).
- Roedd yr ymateb cyffredinol yn gadarnhaol gyda rhywfaint o adborth ac awgrymiadau defnyddiol a fydd yn cael eu defnyddio i lywio datblygiadau 2023/24.
- Dywedodd un defnyddiwr ei fod yn teimlo ei bod yn 'system y mae diogelu wedi bod yn gobeithio amdani' ers amser maith, ac roedd eraill yn meddwl y gellid defnyddio Ystorfa Diogelu Cymru hefyd fel rhan o hyfforddiant (ar gyfer byrddau yn ogystal â myfyrwyr ym maes gwaith cymdeithasol a nyrsio).

**YMGYNGHORIAD FFURFIOL AR ADOLYGIAD DIOGELU UNEDIG SENGL (ADUS)**

- Mae'r ymgynghoriad bellach yn fyw (6 Mawrth 2023). Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 9 Mehefin 2023. Defnyddiwch y ddolen ganlynol i weld y ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb: https://www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-adolygu-diogelu-unedig-unigol-aduu.
- Mae grwpiau ffocws a sesiynau ymgynghori wedi'u cyflwyno i lawer o wahanol grwpiau a byrddau ledled Cymru. Cysylltwch â ni os hoffech i ni fynychu digwyddiad yn eich ardal neu drwy Teams ar gyfer grŵp sydd eisoes yn bodoli.

**This document is also available in English**